# Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

**2011 mccc 1**

## RHAN 9

BYRDD IAITH GYMRAEG, CYNLLUNIAU IAITH GYMRAEG ETC

### 143 Diddymu'r Bwrdd a throsglwyddo swyddogaethau

(1) Diddymir Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

(2) Trosglwyddir y swyddogaethau a roddwyd i'r Bwrdd gan adran 3 o Ddeddf 1993 i'r Comisiynydd.

(3) Ond mae hynny'n ddarostyngedig i unrhyw orchymyn o dan adran 154 sy'n darparu i'r swyddogaethau hynny gael eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru (boed yn lle trosglwyddo'r swyddogaethau i'r Comisiynydd neu'n ychwanegol at wneud hynny).

(4) Trosglwyddir y swyddogaethau a roddwyd i'r Bwrdd gan Ran 2 o Ddeddf 1993 i'r Comisiynydd.

(5) Diddymir darpariaethau canlynol Deddf 1993—

- (a) adran 1;
- (b) adran 2;
- (c) adran 4(2);
- (d) adran 34(2);
- (e) Atodlen 1.

### 144 Diddymu swyddogaethau cyffredinol y Bwrdd a disodli cynlluniau gan safonau

(1) Diddymir y swyddogaethau a roddwyd gan adran 3 o Ddeddf 1993 (ac a drosglwyddwyd fel a grybwyllir yn adran 143).

(2) Mae Rhan 2 o Ddeddf 1993 yn peidio â bod yn gymwys i berson os daw'r person hwnnw, a phan ddaw'r person hwnnw, yn ddarostyngedig am y tro cyntaf i'r ddyletswydd o dan adran 25(1) o'r Mesur hwn i gydymffurfio â safon.

**Statws** *This is the original version (as it was originally enacted).*

(3) Diddymir darpariaethau canlynol Deddf 1993—
   (a) adran 3;
   (b) adran 4(1).

### 145 Disodli cynlluniau iaith Gymraeg gan safonau

(1) Diddymir y swyddogaethau a roddwyd i'r Bwrdd gan Ran 2 o Ddeddf 1993 (ac a drosglwyddwyd fel a grybwyllir yn adran 143).

(2) Diddymir darpariaethau canlynol Deddf 1993—
   (a) Rhan 2;
   (b) adran 34(1) a (3).

### 146 Darpariaeth arall

Mae Atodlen 12 yn cynnwys darpariaeth arall sy'n ymwneud â diddymu'r Bwrdd.

### 147 Atodol

(1) Caiff Gweinidogion Cymru arfer eu pwerau o dan Rannau eraill o'r Mesur hwn at ddibenion dwyn i rym unrhyw ddarpariaeth yn y Mesur hwn sy'n ymwneud â'r Comisiynydd er mwyn galluogi swyddogaethau'r Bwrdd i gael eu trosglwyddo i'r Comisiynydd a bod yn arferadwy ganddo cyn bod unrhyw swyddogaeth newydd yn arferadwy gan y Comisiynydd (p'un a ddaw unrhyw swyddogaeth newydd yn arferadwy ar ôl hynny ai peidio tra bydd unrhyw swyddogaeth a drosglwyddwyd yn parhau i fod yn arferadwy).

(2) At y diben hwnnw ystyr "swyddogaeth newydd" yw swyddogaeth a roddir i'r Comisiynydd gan ddarpariaeth mewn unrhyw Ran arall o'r Mesur hwn.

(3) Nid yw'r Rhan hon yn cyfyngu ar bwerau Gweinidogion Cymru o dan Rannau eraill o'r Mesur hwn (ac yn unol â hynny ceir defnyddio'r pwerau hynny i wneud darpariaeth yn ychwanegol at ddarpariaeth neu yn lle darpariaeth yn y Rhan hon).

(4) Yn yr adran hon, mae cyfeiriadau at bwerau Gweinidogion Cymru o dan Rannau eraill o'r Mesur hwn yn cynnwys eu pwerau o dan—
   (a) adran 154 (darpariaeth drosiannol a darpariaeth ganlyniadol etc), a
   (b) adran 156(2) (cychwyn),

ond heb fod yn gyfyngedig iddynt.

(5) Yn y Rhan hon—

ystyr "y Bwrdd" ("*Board*") yw Bwrdd yr Iaith Gymraeg;

ystyr "Deddf 1993" ("*1993 Act*") yw Deddf yr Iaith Gymraeg 1993.